| | | |
|---|---|---|
| **Cofnodion cyfarfod 10fed o Ionawr 2024 a gynhaliwyd yn y Ganolfan am 7 yn yr hwyr** | | |
| **PRESENNOL** | | |
| Llinos Pritchard (Cadeirydd) | Iola Owen | |
| Iwan Harding | Louise Price | |
| Emlyn Baylis | Nia Jones | |
| Kevin Jones | Kim Jones | |
| Rhys ap Gwilym | Helen Sharp | |

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Llinos Haf Pritchard gan groesawu'r aelodau i gyfarfod mis Ionawr gan ddymuno iddynt Flwyddyn Newydd Hapus. Ni dderbyniwyd ymddiheuriad. | |
| 1.1 | Ni chafwyd cyfranogiad gan y cyhoedd. | |
| 1.2 | Ymgynghoriad Strategaeth Diogelwch Ffyrdd - y Clerc i ymateb dros y Cyngor. | **CLERC** |
| 1.3 | Pwyllgorau - penderfynwyd mabwysiadu tri phwyllgor, Rheoli (yn cynnwys Cyllid, Polisïau, Gweinyddu), Asedau (yn cynnwys Mynwent, Cae Chwarae, Cae bob Tywydd, Parc Bach a Fron Deg a Llwybrau) a Pwyllgor Gweithgareddau Cymunedol (yn cynnwys Ffair Nadolig a Phrosiectau). Penderfynwyd hefyd ar Gylch Gorchwyl y pwyllgorau. | **CLERC** |
| 1.4 | Archwiliad Llywodraethu ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref - roedd y Clerc wedi gwneud archwiliad drwy ddefnyddio ffurflen gwirio Unllais Cymru. Penderfynwyd gadael yr hyn sydd ei angen ei wneud i'r Clerc drwy flaenoriaethu polisïau sydd yn orfodol. | **CLERC** |
| 1.5 | Sedd wag – nid oedd neb wedi gofyn am etholiad ar gyfer y sedd wag felly mae'r Cyngor yn gallu cyfethol. Y Clerc i hysbysebu bod sedd wag a bod etholwyr yn gallu gwneud cais ysgrifenedig amdani. | |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| | Cynghorydd Emlyn Baylis eitem 5.2 | |
| **3.0** | **ADRODDIAD AR FATERION SIROL** | |
| 3.1 | Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig ar faterion sirol gan y Cynghorydd Kim Jones, gweler yr adroddiad yn atodiad 1. | |
| **4.0** | **CADARNHAU GWARIANT A CHYFLWYNO ADRODDIAD ARIANNOL** | |
| 4.1 | Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Rhagfyr 2024 a'u derbyn. | |
| 4.2 | Cadarnhawyd talu cyflog y Clerc, Treth, Glanhau Cysgodfannau bysiau, Adroddiad Playsafety a Dwyn Lewis. | **CLERC** |
| **5.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| 5.1 | Cadarnhawyd cofnodion mis Rhagfyr 2023 . | |
| 5.2 | Llythyr Grŵp Datblygu Llanberis - Trafodwyd cynnwys y llythyr gan drafod yn rhannol arian BDO. Penderfynwyd trefnu cyfarfod arbennig rhwng y Cyngor Grŵp Datblygu Llanberis a gwahodd Cymunedoli iddo er mwyn trafod sut i greu partneriaeth neu ffordd ymlaen i greu Menter Gymdeithasol. Y Clerc i anfon at Selwyn Williams Bro Stiniog. | |
| 5.3 | CCTV a chyfarfod Cyhoeddus – Yr heddlu yn barod i fynychu cyfarfod cyhoeddus, y Rhingyll i benderfynu ar ddyddiad o fewn y 6 wythnos nesaf. | |
| 5.4 | Cerflun Mynydd Gwefru - Llythyr wedi ei dderbyn yn datgan bod y Pelton Wheel wedi ei drafod eisoes gan First Hydro a phenderfyniad wedi ei wneud ers tro na fyddai yn cael ei symud, bydd gwaith adfer yn cael ei wneud ar yr arwyddion a'r goleuadau sydd o'i amgylch | **CLERC** |

| | | |
|---|---|---|
| 5.5 | Newid safle Bin Sbwriel Cae Chwarae Lan Llyn – nid oes unrhyw ddilyniant gan Gyngor Gwynedd ar y mater. | |
| 5.6 | Dwyieithrwydd - Stryd Fawr. Nodwyd bod Becws Melyn wedi gwneud rhywfaint o ymdrech i ddangos y Gymraeg. Parhau a'r ymgyrch. | |
| 5.7 | Cerflun Coffa'r Chwarelwyr - gan nad oedd safle'r Pelton Wheel ar gael, penderfynwyd edrych i gael rhoi'r cerflun yng Ngardd y Feddygfa. Cafwyd adroddiad lafar gan y Cynghorydd Emlyn Baylis a'r Cynghorydd Kevin Jones ar y cyfarfod a fynychwyd ganddynt ym mis Rhagfyr ar Celf Cymuned yn yr ardaloedd llechi. Y Clerc i Wneud cysylltiad â'r trefnwyr. | **CLERC** |
| **6.0** | **PRIFFYRDD A LLWYBRAU CYHOEDDUS** | |
| 6.1 | Dim gwaith wedi ei wneud ar y palmant ger y Llysoedd ar y Stryd Fawr. Er hynny mae arian ar gael o Ffyniant Bro i ardaloedd Llechi. Y Clerc i gysylltu â'r Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd. | |
| **7.0** | **Y FYNWENT** | |
| 7.1 | Trafodwyd yr hysbysfwrdd a phenderfynwyd gosod un newydd ar y safle. Y Clerc i edrych i fewn i gost codi un newydd. | **CLERC** |
| **8.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| | dim | |
| **9.0** | **GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL Y NADOLIG** | |
| 9.1 | Roedd y Clerc wedi gwneud cais i First Hydro ar gyfer gweld os byddent yn rhoi prydles i'r Cyngor Cymuned ar dir safle'r hen adeilad Mynydd Gwefru i osod campfa awyr agored yno. Nid oedd ymateb cadarnhaol ar hyn o bryd. Penderfynwyd symud ymlaen i edrych os fyddai'R Pwyllgor yn gallu dod o hyd i safle ar dir ger Y Ganolfan o dan berchnogaeth Parc Padarn. | |
| **10.0** | **ADRODDIADAU CYRFF ALLANOL** | |
| 10.1 | Mae cyfarfod arbennig wedi ei drefnu rhwng Y Cyngor Cymuned, Grwp Datblygu Llanberis a'r Ganolfan ar gyfer trafod opsiynnau cynnar iawn a syniadau eraill ar Ganolfan Symudedd Llanberis ar gyfer y dyfodol. Cafwyd ychydig o drafodaeth ar y pwnc a rhoddwyd ychydig o gefndir iddo gan y Cynghorydd Emlyn Baylis oedd wedi bod yn mynychu cyfarfodydd yn y gorffennol. Bydd y Cyfarfod ar y 31ain o Ionawr yn y Ganolfan. | |
| **Llofnod:** | | **Dyddiad:** |

Atodiad 1

**Adroddiad Ionawr.**

- Arian HBO - Ffurflen canllawiau wrthi yn cael i'w gyfieithu, bydd y Cyngor yn anfon y fersiynau terfynol o'r ffurflenni at bawb (Ni a Deiniolen) yn y flwyddyn Newydd, dim diweddariad pellach.

- Cwynion ynglŷn ag arogl Canabis gan rieni tu allan i westy Dolbadarn, wedi cael sgwrs efo Harvey y rheolwr, Nia'r PCSO ac wedi taro e-bost i'r Cyngor.

- Coed mewn cyflwr ofnadwy/bron a disgyn ar dir Engie ger llwybr Parc Padarn – Diane Rowlands yn cadarnhau'r isod: *The grounds maintenance team were scheduled to attend site prior to the Christmas break to assess the trees/bushes etc, however the weather had an impact on this and therefore delayed the works. These have now been scheduled for early January, subject to the weather, with a plan to complete before 12th when the Ecologist will be attending to install additional bat and bird boxes. North Wales Fencing will also be attending to the fencing, this will be done in collaboration with the grounds maintenance.*

- Cais wedi dod i mewn ar gyfer gofyn am linellau melyn dros y ffordd i Capel Coch gan dri aelod o'r Cyhoedd. Y Cyngor wedi gwrthod y cais cyntaf, ond wedi anfon e-bost i Andrew Gregson eto (nol yn i'w waith 09/01) i'w ail-ystyried o achos fod difrod yn cael i'w wneud i wal y Capel a thrafferthion parcio/pasio heibio. Bydd angen cynnwys hwn ar agenda Chwefror os nad oes symudiad gan y Cyngor.

- Wedi gofyn wrth Adra ail-osod bollards newydd ar y tir gwydd yn Maes Derlwyn yn dilyn cais gan drigolyn sy'n byw gyfagos, mae hyn o achos fod ceir rwan yn gallu dreifio dros y tir gwyrdd gan fod ambell i bolyn wedi pydru a wedi mynd. Y trigolyn yn pryderu fuasai ymwelwyr yn parcio yma yn yr Haf a daffodils Eric yn cael i'w difrodi. Polyn metel twrisitiaeth hefyd wedi cael i'w dynnu o fan hyn ar ol y Dolig yn dilyn storm, wedi gofyn wrth Ian Morgan pryd fydd modd i'w ail-osod.

- Y Ganolfan yn fodlon prynu bin grit gan y Cyngor ar gyfer eu maes parcio, disgwyl cadarnhad gan Steffan o bryd fydd hwn yn cael i'w osod a'r gost iddynt.

- Wedi gyrru email arall i Peter Simpson am fin i'n cae chwarae – dim diweddariad.

- Wedi anfon ebyst i Carwyn Williams ag Andrew Gregson am faterion a godwyd Eric.

- Y fferyllfa yn dioddef o'r nant/afon tu ôl i'r siop yn gorlifo/codi pan mae hi'n glawio yn drwm, wedi gorfod ffonio'r Cyngor i ddod allan dwywaith yn ystod y gwyliau Nadolig yno.

- Boardwalk Parc Padarn – Cwyn wedi dod mewn ei fod yn llithrig, y wardeiniaid wedi glanhau'r dail oddi arno ond ddim rhy beryglus i'w gau. Bwriad gan y tim i weld os allith nhw wella'r strwythyr yn y dyfodol agos.